Hawdd ei Ddeall

# Gofal Iechyd GIG Parhaus

## 3. Canllaw hawdd ei ddeall ar gymhwysedd GIP:

- pwy sydd yn gallu cael GIP
- sut rydyn ni'n penderfynu pwy sydd yn gymwys



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r **LLyfryn Gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr**.

**Hydref 2022**

# Cynnwys

**Tudalen**

**Am y llyfryn yma....................................................................3**

**Pwy sydd yn gymwys i gael GIP?...........................................6**

**Sut mae cymhwysedd yn cael ei wirio?..................................7**

Pryd fydd fy asesiad GIP yn digwydd?..................................7

Cydgysylltydd Gofal.............................................................9

Tîm Aml-Ddisgyblaeth..........................................................10

Penderfyniad y Tîm Aml-Ddisgyblaeth..............................20

Sut rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod yr asesiad GIP yn cael ei wneud i safon uchel.................................................21

Dweud wrthych chi am y penderfyniad sydd wedi cael i wneud..................................................................................22

**Sut mae cymhwysedd ar gyfer GIP yn effeithio ar eich budd-daliadau.......................................................................24**

Budd-daliadau anabledd....................................................24

Pensiwn y Wladwriaeth a Chredyd Pensiwn.....................28

**Geiriau anodd........................................................................29**

# Am y llyfryn yma




Mae'r llyfryn yma yn **rhan 3** o 5 canllaw hawdd eu deall i Ofal Iechyd GIG Parhaus.




Mae wedi ei ysgrifennu o ganllaw sydd wedi cael ei ysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Rydych chi'n gallu darllen y canllaw gwreiddiol yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr

Mae 5 llyfryn hawdd eu deall:

**1. Beth ydy Gofal Iechyd Parhaus (GIP)?**

**2. Canllaw hawdd ei ddeall i asesiadau GIP**

**3. Pwy sydd yn gymwys i cael GIP?**

**4. Sut mae GIP yn cael ei drefnu**

**5. Beth sydd yn digwydd os nad ydw i'n gymwys i gael GIP?**




Maen nhw ar gael yma: llyw.cymru/gofal-iechydparhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyferunigolion-teuluoedd-gofalwyr

Mae’r llyfryn yma wedi cael ei wneud yn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cysylltwch gyda Llywodraeth Cymru os ydych chi angen y llyfryn yma mewn unrhyw fformat arall.




Mae gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr

**Neu rydych chi’n gallu cysylltu gyda Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth:**



**Drwy’r post:** Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**Ar y ffôn:** 0300 0604400

**Drwy e-bost:** cymorth@llyw.cymru



Mae gwybodaeth gyswllt ar gyfer eich bwrdd iechyd lleol ar gael yn **llyfryn 1 tudalen 16**.




Neu maen nhw ar gael ar wefan **Galw Iechyd Cymru**: [111.wales.nhs.uk/localservices/localhealthboards?locale=cy&term=A](111.wales.nhs.uk/localservices/localhealthboards?locale=cy&term=A)

# Pwy sydd yn gymwys i gael GIP?



Mae **cymwys** yn meddwl bod gennych chi hawl i gael GIP oherwydd eich bod yn ateb yr amodau.



Dim ond 1 amod rydych chi ei angen ei ateb i fod yn **gymwys** ar gyfer GIP. Rhaid i chi fod ag **angen iechyd sylfaenol**.




Efallai bod gennych chi lawer o wahanol anghenion. Mae **angen iechyd sylfaenol** yn meddwl eich bod angen gofal a chymorth yn bennaf i reoli eich **iechyd**.

# Sut mae cymhwysedd yn cael ei wirio?



Eich Bwrdd Iechyd Lleol sydd yn gyfrifol am weld os ydych chi yn **gymwys** ar gyfer GIP.




Maen nhw'n gwneud hyn drwy **asesiad** GIP.

**Asesiad** ydy pan mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.

## Pryd fydd fy asesiad GIP yn digwydd?



Fe ddylai eich **asesiad** GIP ddigwydd yn y lle cywir, ar yr amser cywir i chi.

Fe ddylai ddigwydd fel arfer pan rydych chi wedi setlo:



- yn eich cartref eich hun

- mewn cartref gofal



- mewn ysbyty cymuned.



Os ydych chi wedi bod yn yr ysbyty, fe ddylech chi gael yr amser rydych chi ei angen ar gyfer **adsefydlu** neu **ailalluogi** cyn i chi gael eich **asesiad** GIP.

**Adsefydlu** ac **ailalluogi** ydy'r gofal a'r cymorth rydych chi'n eu cael ar ôl salwch neu ddamwain i'ch helpu chi i allu edrych ar ôl eich hun a byw mor annibynnol â phosibl.

## Cydgysylltydd Gofal



Pan mae pendefyniad wedi cael ei wneud eich bod chi angen **asesiad** GIP, fe fydd eich Bwrdd Iechyd yn rhoi Cydgysylltydd Gofal i chi.



Fe fydd eich Cydgysylltydd Gofal yn trefnu ac yn cadw llygad ar yr holl **asesiad** GIP.



Nhw fydd eich prif bwynt cyswllt. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych chi'n poeni am unrhyw beth, siaradwch gyda'ch Cydgysylltydd Gofal.




Fe ddylech chi gael enw, rhif cyswllt a chyfeiriad e-bost eich Cydgysylltydd Gofal.



Rhaid i'ch Cydgysylltydd Gofal ddweud wrthych chi beth sydd yn digwydd. Fe fyddan nhw yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael eich gwahodd i unrhyw gyfarfodydd amdanoch chi.



Fe ddylen nhw wneud yn siŵr eich bod yn cymryd rhan yn llawn mewn sgyrsiau a phenderfyniadau am eich anghenion.

## Tîm Aml-Ddisgyblaeth




Fe fydd eich **Cydgysylltydd Gofal** yn creu **Tîm Aml-Ddisgyblaeth (TAD)**.

**Tîm Aml-Ddisgyblaeth** ydy grŵp o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wneud eich **asesiad** GIP. Rydyn ni yn eu galw yn **TAD** yn fyr.



Fe fydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi bod yn rhan o'ch gofal ar y **TAD**.




Fe ddylai eich Cydgysylltydd Gofal gysylltu gyda chi o fewn 2 ddiwrnod gwaith o **gyfarfod y TAD** i:



- wneud yn siŵr eich bod chi'n deall yn llawn beth oedd wedi digwydd yng **nghyfarfod y TAD**



- ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.

**Rhaid** i'r **TAD** gynnwys:



- O leiaf 2 wahanol fath o weithwyr iechyd proffesiynol sydd yn eich adnabod chi. Er enghraifft, nyrsus, meddygon, therapyddion iaith a lleferedd.



- Gweithiwr cymdeithasol.



**Gallai'r** **TAD** hefyd ddefnyddio gwybodaeth gan:

- Staff cartref gofal.
- Staff gofal sy'n gweithio yn eich cartref eich hun.

Fe fydd y **TAD** yn casglu gwybodaeth a phrawf am eich:



- iechyd corfforol



- iechyd meddyliol
- anghenion gofal cymdeithasol.




Fe fyddan nhw yn edrych ar eich **holl** anghenion a sut y maen nhw'n gallu cael eu hateb orau.



Fe fydd gweithwyr proffesiynol o'r **TAD** yn dod i'ch gweld i ddeall eich anghenion yn dda.




Fe ddylai unrhyw gyfarfod rydych chi'n ei gael fod yn yr iaith o'ch dewis chi.



Mae beth rydych chi'n feddwl a beth rydych chi eisiau yn rhan pwysig o'r **asesiad** GIP.



Rydych chi'n arbenigwr ar eich bywyd eich hun. Ac ni ddylai ddim byd gael ei benderfynu amdanoch chi, hebddoch chi.



Fe fydd yr wybodaeth sydd yn cael ei chasglu yn cael ei ddefnyddio mewn **cyfarfod TAD** i lenwi'r **Adnodd Cymorth Penderfynu**.



Offeryn ydy'r **Adnodd Cymorth Penderfynu** i gofnodi gwybodaeth i gefnogi'r **asesiad**.



Fe fydd eich Cydgysylltydd Gofal yn eich gwahodd chi a'ch teulu, gofalwr neu **eiriolydd** i **gyfarfod y TAD**.



**Eiriolaeth** ydy pan mae rhywun yn eich helpu chi i wneud yn siŵr bod beth rydych chi eisiau a'ch anghenion yn cael eu clywed. Mae'r person yma yn cael eu galw yn **eiriolydd**.




Rhaid i **gyfarfod TAD** gael ei wneud yn yr iaith o'ch dewis chi .



Fe ddylech chi gael gwybod am y cyfarfod mewn digon o amser er mwyn i chi allu cynllunio i fod yno.



Rydych chi'n gallu mynd i'r cyfarfod eich hun. Neu rydych chi'n gallu ymuno ar-lein.



I ymuno gyda'r cyfarfod ar-lein rydych chi angen cyfrifiadur a chysylltiad rhyngrwyd. Fe fydd y gwahoddiad yn cael ei anfon atoch chi ar e-bost ac fe fydd angen i chi glicio ar y ddolen yn yr e-bost i ymuno gyda'r cyfarfod.



Os nad ydych chi, eich teulu, gofalwr neu **eiriolydd** yn gallu mynd i'r cyfarfod, fe ddylai'r **TAD** gael gwybod beth rydych chi'n feddwl cyn y cyfarfod. A meddwl am eich anghenion a beth rydych chi eisiau.



Fe fydd y **TAD** yn **asesu** eich anghenion yn y **12 maes angen** a chofnodi'r rhain yn yr **Offeryn Cymorth Penderfyniad**.




Maen nhw yr un meysydd angen ag sydd yn yr **Adnodd Rhestr Wirio GIP**. Rydych chi'n gallu darllen am y meysydd angen yn **llyfryn 2 ar dudalen 14**.



Fe fydd y **TAD** yn mynd drwy bob maes angen.



Fe fyddan nhw yn dewis pa lefel o angen sydd gennych chi ym mhob maes. Er enghraifft, lefel isel o angen neu lefel uchel o angen.




Pan mae'r Adnodd Cymorth Penderfynu wedi ei orffen, fe ddylai fod yn glir iawn:

- beth ydy eich anghenion,
- a pha ofal a chymorth rydych chi eu hangen i ateb yr anghenion hynny.



Bydd y **TAD** yn penderfynu os ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP. Bydd e'n ystyried os oes gennych chi:



- Lefel **blaenoriaeth** o angen mewn 1 o'r meysydd.

  Mae **blaenoriaeth** yn meddwl mwyaf pwysig.

- Lefel uchel iawn o angen mewn unrhyw **2** o'r meysydd.

Bydd y **TAD** hefyd yn meddwl am 4 peth pwysig, o'r enw **dangosyddion allweddol**:



- **Natur** - mae hyn yn golygu sut beth yw eich anghenion chi. Sut beth yw'r gefnogaeth sydd ei angen arnoch chi. A sut mae hyn i gyd yn effeithio ar eich bywyd chi.



- **Dwyster** - mae hyn yn golygu faint o ofal sydd ei angen arnoch chi, pa mor aml a pha mor ddifrifol yw eich anghenion chi. Ac os oes angen gofal parhaus arnoch chi ar y lefel hon.



- **Cymhlethdod** - mae hyn yn golygu pa mor anodd ydy hi i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnoch chi.



- **Natur anrhagweladwy** - mae hyn yn edrych ar ba mor debygol ydy hi y bydd eich anghenion yn gallu newid yn gyflym. A pha mor anodd ydy hi i ddarparu gofal oherwydd hyn. Mae e hefyd yn yn edrych ar y risg i'ch iechyd chi os nad yw'r gofal cywir yn cael ei roi ar yr adeg gywir.



- Bydd y **TAD** yn canolbwyntio ar y person cyfan, a sut mae popeth yn gweithio gyda'i gilydd ac yn effeithio ar eu bywyd nhw. Mae hi'n ymwneud â mwy na dim ond sut rydych chi'n sgorio yn yr **Adnodd Cymorth Penderfynu**.

**Efallai** y byddan nhw'n meddwl bod angen iechyd gyda chi, ac eich bod chi'n **gymwys** ar gyfer GIP os oes gennych chi:




- Lefel uchel iawn o angen mewn 1 maes. **Ac** anghenion mewn llawer iawn o feysydd eraill.



Ni ddylid rhoi eich anghenion rhwng lefelau. Os ydy hi'n anodd cytuno ar lefel, fe ddylai'r **TAD** ddewis y lefel uchaf.



Ni ddylai eich anghenion gael eu marcio fel anghenion lefel isel oherwydd eich bod chi yn eu rheoli nhw'n dda nawr. Maen nhw'n dal yn anghenion.



Os ydy hi'n amlwg y bydd eich iechyd yn mynd yn waeth ac y bydd eich anghenion yn cynyddu yn fuan, fe ddylid meddwl am hyn pan mae penderfyniadau yn cael eu gwneud. A'i gofnodi.



Mae adran yn yr **Adnodd Cymorth Penderfynu** i chi roi beth rydych chi'n feddwl yno.



Fe ddylai gael ei gofnodi os ydych chi’n cytuno neu beidio gyda lefel angen ym mhob maes.



Os oes gennych chi, eich teulu, gofalwr neu **eiriolydd** unrhyw bryderon am y **TAD** neu’r **Adnodd Cymorth Penderfynu**, fe ddylai eich Cydgysylltydd Gofal siarad amdanyn nhw gyda chi. A cheisio datrys eich pryderon.



Os nad ydy eich Cydgysylltydd Gofal yn gallu datrys eich pryderon, fe ddylen nhw gael eu cofnodi ar yr **Adnodd Cymorth Penderfynu**.



Fel hyn, bydd eich Bwrdd Iechyd Lleol yn gwybod am eich pryderon. Ac yn gallu meddwl amdanyn nhw **ochr yn ochr â phopeth arall** pan maen nhw’n gwneud y penderfyniad terfynol am **gymhwysedd** ar gyfer GIP.

## Penderfyniad y Tîm Aml-Ddisgyblaeth



Ar ôl yr **Adnodd Cymorth Penderfynu** fe fydd y **TAD** yn dweud wrth eich Bwrdd Iechyd Lleol os oes gennych chi angen iechyd sylfaenol neu beidio.



Fe ddylech chi gael gwybod beth ydy penderfyniad y **TAD** mor fuan â phosibl.



Ychydig iawn o sefyllfaoedd sydd yna lle bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth i gefnogi penderfyniad y **TAD**. Er enghraifft:

- Doedd yr **Adnodd Cymorth Penderfynu** ddim wedi ei gwblhau yn llawn.
- Mae gwahaniaethau mawr yn y prawf am eich iechyd a'r penderfyniad sydd wedi cael ei wneud.

## Sut rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod yr asesiad GIP yn cael ei wneud i safon uchel

Rhaid i'r **TAD**:




- Edrych yn fanwl ar eich anghenion.



- Rhoi cyngor arbenigol am eich anghenion i'r Bwrdd Iechyd Lleol.




- Ysgrifennu cynllun gofal sydd yn ateb eich anghenion.



- Awgrymu'r ffyrdd gorau o ddarparu eich cynllun gofal.

Rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol gael systemau yn eu lle i wneud yn siŵr bod gan y TAD:




- y sgiliau,
- yr wybodaeth, a'r
- profiad cywir.

## Dweud wrthych chi am y penderfyniad sydd wedi cael i wneud




Fe fyddwch yn cael gwybod canlyniadau eich **asesiad** GIP mewn ysgrifen mor fuan â phosibl. Efallai y byddan nhw hefyd yn dweud wrthych chi yn bersonol.




Fe ddylech chi gael gwybod yn yr iaith o'ch dewis chi. Fe ddylai'r wybodaeth ddweud:



- os ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP neu beidio



- y rhesymau dros y penderfyniad sydd wedi cael ei wneud




- copi o'r **Adnodd Cymorth Penderfynu**




- manylion am bwy rydych chi'n gallu cysylltu gyda nhw os ydych chi angen rhagor o wybodaeth




- sut i ofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol i edrych ar y penderfyniad os nad ydych chi'n hapus.





Os nad ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP, efallai y bydd eich llythyr penderfyniad yn cynnwys gwybodaeth hefyd am:

- Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu,
- neu becyn gofal ar y cyd.

Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn **llyfryn 5 ar dudalen 6**.

# Sut mae cymhwysedd ar gyfer GIP yn effeithio ar eich budd-daliadau




## Budd-daliadau anabledd

- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw Anabl
- Taliad Annibyniaeth Personol



Os ydych chi'n cael **GIP** yn eich cartref eich hun, fe fyddwch chi'n parhau i gael eich budd-daliadau anabledd.



Os ydych chi'n cael GIP mewn **cartref gofal gyda nyrsio** mae:



- **Lwfans Gweini,**
- y rhannau **gofal a symudedd o Lwfans Byw Anabl,**
- a'r rhannau **gofal** a **symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol,**




yn cael eu **stopio** 28 diwrnod ar ôl i'ch cyllid GIP ddechrau.



Os ydych chi'n cael GIP mewn **cartref gofal preswyl**:




- mae'r rhan **gofal** o fudd-daliadau anabledd yn **stopio** ar ôl 28 diwrnod i'ch cyllid GIP ddechrau,




- ond fe fyddwch chi'n parhau i gael y rhannau **symudedd** o'r **Lwfans Byw Anabl** neu'r **Taliad Annibyniaeth Personol**.



Efallai y byddwch yn cael gofal cymdeithasol a chymorth mewn cartref gofal sydd yn cael ei drefnu a'i dalu gan eich awdurdod lleol.

£

Os ydy hyn yn digwydd i chi, fe fydd angen i chi dalu tuag at gost y gofal yma.




Fe fydd rhan gofal budd-daliadau anabledd yn cael ei **stopio** ar ôl 28 diwrnod. Ond fe fyddwch chi'n parhau i gael:




- rhan **symudedd** o'r Lwfans Byw Anabl,
- neu'r rhan **symudedd** o'r Taliad Annibyniaeth Personol.

# Pensiwn y Wladwriaeth a Chredyd Pensiwn



**Ni** fydd GIP yn effeithio ar eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych chi'n cael Credyd Pensiwn fe fyddwch chi'n colli'r elfen anabledd dwys os ydych chi'n colli:




- y Lwfans Gweini,
- y rhan **gofal** o'r Lwfans Byw Anabl,
- y rhan **byw dyddiol** o'r Taliad Annibyniaeth Personol.



Mae hyn yn debygol o effeithio ar faint o Gredyd Pensiwn rydych chi'n gallu ei gael.

# Geiriau anodd

### Adsefydlu ac ailalluogi

Adsefydlu ac ailalluogi ydy'r gofal a'r cymorth rydych chi'n eu cael ar ôl salwch neu ddamwain i'ch helpu chi i allu gwneud eich tasgau o ddydd i ddydd.

### Asesiad

Asesiad ydy pan mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.

### Blaenoriaeth

Mae blaenoriaeth yn meddwl mwyaf pwysig.

### Cymwys

Mae cymwys yn meddwl bod gennych chi'r hawl i gael GIP oherwydd eich bod chi'n ateb yr amodau.

### Eiriolaeth ac eiriolydd

Eiriolaeth ydy pan mae rhywun yn eich helpu chi i wneud yn siŵr bod beth rydych chi ei eisiau a'ch anghenion yn cael eu clywed. Mae'r person yma yn cael eu galw yn eiriolydd.

### Tîm Aml-Ddisgyblaeth neu TAD

Tîm Aml-Ddisgyblaeth ydy grŵp o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wneud eich asesiad GIP. Rydyn ni yn eu galw yn TAD yn fyr.